Creating safer places. Together.

# Adroddiad Cryno
# Archwiliad Diogelu o Drefniadau yr Eglwys yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Cynhyrchwyd ar gyfer: | Wendy Lemon |
| | Rheolwr Diogelu |
| | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Cynhyrchwyd gan: | Dawn Watson |
| | Uwch Gynghorydd Diogelu |
| Sicrwydd Ansawdd gan: | Susan Stephen – Rheolwr Diogelu |
| Cymeradwywyd gan: | Karen Eakins – Pennaeth Diogelu |
| Fersiwn | 3 |
| Dyddiad: | 03/01/24 (fersiwn derfynol) |

# Cyflwyniad

## Rheswm dros ofyn am archwiliad diogelu

Comisiynwyd yr archwiliad Diogelu hwn (Cam 2) gan yr Eglwys yng Nghymru gyda'r bwriad o gynnal adolygiad allanol annibynnol o'i phrosesau a'i pholisïau diogelu. Gofynnwyd i Thirtyone:eight gwblhau'r archwiliad fesul cam gan adolygu meysydd blaenoriaeth allweddol penodol i roi cyfle i unrhyw gamau a awgrymir gael eu gweithredu, cyn cynnal adolygiad pellach.

Mae'r Archwiliad yn dilyn fframwaith seiliedig ar safonau Thirtyone:8 ac mae'n unol â gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a nod yr archwiliad yw ceisio nodi ac amlygu cryfderau, meysydd i'w gwella ac argymell camau gweithredu i gryfhau gwaith diogelu ar gyfer y sefydliad.

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cael cyfnod sylweddol o newid wrth benodi rolau rheoli allweddol, ac mae'r rhain wedi arwain at newidiadau mewn strwythur a llywodraethu. Bu ffocws o'r newydd ar sut mae diogelu'n cael ei reoli, ac mae polisïau a gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u diweddaru dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ym mis Ebrill 2023 gofynnwyd i Thirtyone:eight ganolbwyntio'r archwiliad ar dri maes allweddol:

- Llywodraethu
- Polisi Diogelu
- Gweithio gyda'r rhai a allai beri risg

Mae'r ail gam hwn o'r archwiliad nawr yn ceisio adolygu meysydd allweddol:

- Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth
- Rheoli Gweithwyr
- Ymateb i bryderon

## Ynglŷn â Thirtyone:eight

Mae Thirtyone:eight yn elusen Gristnogol sy'n darparu ystod o wasanaethau i gefnogi eglwysi a sefydliadau ffydd eraill i amddiffyn pobl fregus. "Ein gweledigaeth yw byd lle mae pob plentyn ac oedolyn yn gallu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel". Ein nod yw gwneud hyn drwy arfogi, grymuso ac annog sefydliadau i greu amgylcheddau mwy diogel, ymateb i gamdriniaeth, a chodi eu safonau o ran arferion diogelu. Mae ein henw yn deillio o lyfr y Diarhebion 31 adnod 8: "Dadlau o blaid y mud, a thros achos yr holl rai diobaith".

Rydym yn sefydliad diogelu blaenllaw yn y sector ffydd ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi sefydliadau, gan gynnwys: gwasanaeth gwirio DBS, amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant ar ddiogelu, cymorth ar bolisi, ymgynghori, archwiliadau diogelu, asesiadau risg, adolygiadau achos a chyngor diogelu rhyngwladol.

### Methodoleg

Yn ystod yr archwiliad diogelu adolygwyd nifer o ddogfennau i gynorthwyo'r broses asesu. Roedd y rhain yn cynnwys dogfennaeth polisi Diogelu a pholisïau gan Adnoddau Dynol. Roedd yr archwiliad hefyd yn edrych ar ddogfennau strategol yn ymwneud â diogelu a dogfennau prosesau mewnol ar gyfer y Tîm Diogelu Taleithiol. Roedd yr archwiliad hefyd yn cynnwys adolygiad o'r holl ddeunyddiau hyfforddi, gwefannau'r Dalaith a'r Esgobaethau.

Cynhaliwyd nifer o gyfweliadau dros Microsoft Teams gyda nifer o aelodau o'r Tîm Diogel Taleithiol.

Yn ogystal, dosbarthwyd holiadur MS Forms i 65 o Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth (MASO's) ar draws y dalaith yn gofyn cwestiynau mewn perthynas â'u rôl. Ymatebodd 36 ac mae'r Archwilydd yn ddiolchgar am y cyfle i weld a deall eu profiadau a'u gwybodaeth am ddiogelu plwyfi. Ar ôl llenwi'r ffurflenni ar-lein hyn, roedd pedwar MASO hefyd wedi cytuno i siarad dros y ffôn a rhannu eu meddyliau a'u sylwadau ac mae'r adolygydd unwaith eto yn ddiolchgar iddynt am roi o'u hamser i wneud hyn.

Cynhaliwyd yr archwiliad hwn ar adeg benodol ac felly mae'n rhoi cipolwg ar y trefniadau a'r diwylliant diogelu ar yr adeg y cynhaliwyd yr archwiliad. Mae canfyddiadau'r archwiliad yn seiliedig ar y dystiolaeth a welwyd ar yr adeg hon.

Mae'r archwiliad hwn yn annibynnol, yn seiliedig ar 10 Safon Diogelu Thirtyone:eight. Mae'r safonau hyn yn darparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer archwilio sefydliad yn llwyddiannus, a thrwy hynny, arfogi'r sefydliad hwnnw i fabwysiadu'r arferion diogelu gorau. Gan fod yr ymarfer hwn ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru, mae wedi'i seilio ar ddetholiad o 3 maes o dan 10 safon Thirtyone:eight, mae'r rhifo a ddefnyddir yn yr Adroddiad hwn yn seiliedig ar drefn Thirtyone:eight o'r tri maes hyn (h.y. Safonau 5, 7 a 9).

## Yr Archwiliad yn gryno

**Cryfderau**

Roedd ffocws yr archwiliad hwn ar Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth, Rheoli Gweithwyr ac Ymateb i Bryderon. Roedd yr Archwilydd yn ffodus i allu ymgysylltu ag aelodau o'r Tîm Diogelu Taleithiol gan gynnwys Swyddogion Diogelu Taleithiol, Swyddogion Ymgysylltu a hyfforddwyr. Cynigiwyd holiadur ar-lein i 65 o gyfranogwyr a manteisiodd 36 ar y cyfle i ymateb ac yna cafwyd sgwrs ffôn gyda phedwar ohonynt.

Roedd y darlun a ddaeth i'r amlwg yn dangos llwyth gwaith cynyddol i'r Tîm Diogelu Taleithiol a oedd yn ymdopi ar hyn o bryd ac o fewn eu set sgiliau ac fe'u hanogir i fynychu hyfforddiant allanol a gofyn am gyngor pan fo angen, yn enwedig mewn perthynas â Gweinidogaeth Gwaredigaeth. Roedd yr arsylwadau a wnaed am Swyddogion y Dalaith yn gadarnhaol ac ychwanegwyd eu bod yn fuddiol ac ar gael i roi cyngor pan oedd angen.

Mae cyflawni rôl Swyddog Diogelu Ardal Weinidogaeth (MASO) yn waith cymharol newydd gan mai dim ond am ddwy flynedd y mae'r rhan fwyaf o wirfoddolwyr wedi bod yn gwneud hyn oni bai eu bod wedi bod yn 'Swyddog Diogelwch' yn y gorffennol. Darlun heriol a gafwyd gan ymatebwyr yr holiadur ond hefyd nodwyd gwerth y gwaith o ran dod i adnabod eu hardaloedd gweinidogaeth. Roedd rhai MASOs yn goruchwylio llai na phum eglwys tra bod eraill yn ymwneud â deuddeg neu fwy. Roedd y cysylltiadau roedd MASOs yn eu meithrin gydag eglwysi yn cynnwys cyfarfod yn rheolaidd â'r arweinydd Diogelu (os oedd un ar gael), mynychu cyfarfodydd cynghorau eglwysig a gweithgareddau'r eglwys a chynnal rhai digwyddiadau hyfforddi i'r sawl na fedrent gyrchu'r rhyngrwyd neu ddilyn cyrsiau ar-lein. Mae'r MASOs hefyd yn cysylltu â chyfarfodydd yr Ardal Weinidogaeth er nad oedd y mewnbwn sydd ar gael i unigolion yn glir gan fod rhai yn dweud eu bod yn siarad mewn cyfarfodydd tra bod eraill yn cyflwyno adroddiadau.

Mae rôl y Swyddog Ymgysylltu yn bwysig hefyd ar gyfer datrys problemau cyn iddynt ddatblygu i fod yn bryderon diogelu, ac mae'r agwedd ataliol yn gymorth i'r plwyfi a'r Tîm Diogelu Taleithiol.

Mae'r rôl yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd oherwydd y cysylltiad agos â hyfforddiant ac felly caiff hyn ei ystyried mewn perthynas â recriwtio yn y dyfodol.

Mae'r tîm hyfforddi yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Diogelu Taleithiol, sy'n gydweithrediad cadarnhaol gan eu bod yn gallu ymateb i bryderon a'u bwydo i'r hyfforddiant. Roedd aelodau eraill o'r tîm hefyd yn bresennol mewn sesiynau hyfforddi ar adegau. Roedd hyn yn hynod amlwg yn hyfforddiant yr Uwch Glerigion lle'r oedd yn flaenoriaeth i'r Cyfarwyddwr Diogelu fynychu'r holl gyrsiau ar draws yr esgobaethau. Roedd yr hyfforddiant a'r hyfforddwyr yn uchel eu parch, ac roedd cynnwys yr hyfforddiant yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut y dylai eglwys fwy diogel edrych.

Roedd cwblhau'r holiadur yn ddefnyddiol dros ben, roedd 36 MASO wedi llenwi'r ffurflen ar-lein gan ymateb i un ar bymtheg o gwestiynau. Daethant o bum ardal esgobaeth, a darparodd rhai fanylion cyswllt ar gyfer sgyrsiau ffôn personol a oedd o gymorth mawr ac yn rhoi darlun gwerthfawr pellach. Roedd y cwestiynau a atebwyd yn dangos faint o waith y mae llawer yn ei wneud a'r ymdrechion y maent yn eu gwneud i gyrraedd yr eglwysi yn eu hardaloedd gweinidogaeth, dylid dathlu eu gwaith ar draws ardaloedd yr esgobaeth i annog a hyrwyddo diogelu..

**Meysydd i'w Gwella**

Mae hyfforddi a lledaenu gwybodaeth gan lunwyr polisi i'r rhai mewn eglwysi lleol yn hollbwysig ond o ystyried faint o hyfforddiant sydd ei angen ar draws y dalaith byddai hyn yn ymddangos yn dasg bron yn amhosibl, yn enwedig wrth i hyfforddiant gael ei adolygu a chyrsiau newydd gael eu hyrwyddo. Mae argaeledd y tîm hyfforddi yn gyfyngedig gan fod cynnal cyrsiau Zoom ac wyneb yn wyneb yn rheolaidd ar draws y dalaith yn ystod yr wythnos, gyda'r nos ac ar ddydd Sadwrn yn dasg enfawr. Nododd yr Archwilydd fod cyrsiau'n cael eu canslo o dro i dro oherwydd amgylchiadau annisgwyl i'r hyfforddwr. Nid yw hyn yn anarferol ond ymddengys nad oes capasiti i eraill fedru cyflawni'r rôl. Ar un o'r cyrsiau, nodwyd bod y cwrs wedi'i ganslo ddwywaith gan amharu ar ymdrechion pobl brysur sydd wedi neilltuo amser ar gyfer cyrsiau.

Ar hyn o bryd mae'r hyfforddwr yn sicrhau bod yr hyfforddiant yn hygyrch i bobl, ac ar adegau bydd yn teithio cryn bellter ac yn aros dros nos i hwyluso hyfforddiant. Gwerthfawrogir hyn ond mae hefyd yn cymryd llawer o amser, felly byddai cynyddu hyfforddwyr mewn gwahanol rannau o'r dalaith yn opsiwn gwerthfawr ar gyfer y dyfodol.

Ar adegau, ymddengys fod gwaith y MASOs yn cynnwys hyfforddi mewn eglwysi sydd yn eu Hardaloedd Gweinidogaeth lleol. Gallai hyn fod yn gyfle i longyfarch y gwaith hwn a chynnig sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' i'r rhai sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau fel hyfforddwyr gwirfoddol.

Cafwyd cydnabyddiaeth fod angen datblygu ymhellach mewn perthynas â hyfforddiant Cam-drin Domestig, Cam-drin Ysbrydol, Gofal Bugeiliol ac Iechyd Meddwl ac mae'r rhain i gyd yn feysydd sy'n cael eu datblygu ar gyfer y dyfodol.

**Negeseuon allweddol gan Lais y Bobl**

Roedd y rhai a gyfrannodd at yr archwiliad hwn yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, yn enwedig y rhai sy'n wirfoddolwyr ac yn hyrwyddo diogelu yn eu 'hamser rhydd'. Roedd yn galonogol clywed

| |
|---|
| faint o waith sydd wedi'i wneud mewn eglwysi lleol a chlywed yr ymateb cadarnhaol i raddau helaeth gan y rhai mewn rolau clerigol sy'n cefnogi eu MASO lleol.<br>Ymatebion cymysg sydd i lais y MASO ac mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud mewn eglwysi unigol, mawr a bach a bydd hyn yn her barhaus. Mae llawer yn cydnabod y gwaith caled a'r amser a neilltuir ond hefyd yn dathlu bod yn rhan o rywbeth mwy ac yn croesawu'r cyfle i ddefnyddio eu sgiliau a'u hamser fel hyn.<br>Roedd cronfa ddata Pobl fy Eglwys yn destun rhwystredigaeth i lawer er bod yna ddealltwriaeth ei fod yn dal yn newydd ac yn dal i gael ei roi ar waith ar draws y dalaith. Byddai'r rhai a gyfrannodd yn hoffi mwy o hyfforddiant ac roedd llawer yn rhwystredig gyda'r diffyg eglurder ynghylch gwiriadau DBS a'r negeseuon cymysg o ganllawiau'r llywodraeth, APCS (y darparwr ar-lein) a gwasanaethau cymorth y swyddfa ganolog. Roedd y diffyg eglurder ynghylch yr enwau a ddefnyddir ar gyfer rolau ym mywyd yr eglwys yn achosi anghysondeb a rhwystredigaeth i lawer. |

## Argymhellion

| | |
|---|---|
| **Safon 1 - Llywodraethu** | Aseswyd yn flaenorol ym mis Ebrill 2023 |
| **Safon 2 - Diwylliant** | Heb ei asesu yn yr archwiliad penodol hwn |
| **Safon 3<br>Polisi Diogelu** | Aseswyd yn flaenorol ym mis Ebrill 2023 |
| **Safon 4<br>Recriwtio Mwy Diogel** | Heb ei asesu yn yr archwiliad penodol hwn |
| **Safon 5 - Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth** | • Adolygu llwythi gwaith hyfforddwyr a'u gallu i ddarparu rhywun yn eu lle pan nad ydyn nhw ar gael yn annisgwyl.<br>• Cyflogi hyfforddwr(wyr) ar draws y dalaith.<br>• Ystyried cyfleoedd 'Hyfforddi'r Hyfforddwr'<br>• Ystyried hyfforddwyr gwirfoddol wedi'u dilysu ar draws y dalaith<br>• Parhau i ddatblygu a chynnwys cyrsiau Uwch h.y. Cam-drin domestig.<br>• Sicrhau bod materion hygyrchedd yn cael eu hystyried ar gyfer y rhai sy'n mynychu hyfforddiant ac sydd â nam corfforol, meddyliol, gweledol neu glyw.<br>• Sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn unol ag argymhellion y Fframwaith Safonau Hyfforddiant Cenedlaethol |
| **Safon 6 - Gweithio a Chyfathrebu'n Ddiogel (gan gynnwys Gofal Bugeiliol)** | Heb ei asesu yn yr archwiliad penodol hwn |
| **Safon 7 -** | • Hyrwyddo Diogelu yn gadarnhaol ar lefel esgobaeth a rôl MASOs |

| | |
|---|---|
| **Rheoli Gweithwyr** | • Creu cyfleoedd cymorth gan gymheiriaid ar gyfer MASO yn eu hardaloedd esgobaethol.<br>• Anfon cylchlythyr yn rheolaidd at MASOs i'w hannog gyda gwybodaeth i'w throsglwyddo i'r plwyfi, gan gynnwys materion allweddol fel asesiadau risg, gweithio gydag oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth a/neu esgeulustod a risgiau y gellir eu nodi.<br>• Cynnig hyfforddiant Pobl fy Eglwys i bawb sydd ei angen gyda chanllawiau clir ar yr hyn y disgwylir iddynt ei adolygu a'i ddal. |
| **Safon 8 - Gweithio mewn partneriaeth** | Heb ei asesu yn yr archwiliad penodol hwn |
| **Safon 9 - Ymateb i bryderon (gan gynnwys Cefnogi Goroeswyr)** | • Darparu gwybodaeth ar bob gwefan esgobaethol sy'n rhoi gwybodaeth am wasanaethau cymorth i Oroeswyr a'r rhai mewn angen. |
| **Safon 10 - Gweithio gyda'r rhai sy'n peri risg.** | Aseswyd yn flaenorol ym mis Ebrill 2023 |

| **Cynhaliwyd yr Archwiliad gan:** | **Dyddiad cwblhau:** | |
|---|---|---|
| Dawn Watson – Uwch Gynghorydd Diogelu | 28/11/2023 | |

## Cynllun Gweithredu (i'w gynnal gan y sefydliad)

| Safon | Camau i'w cymryd | Gan bwy | Erbyn pryd | Sgôr CMG |
|---|---|---|---|---|
| **Safon 5** | Adolygu llwythi gwaith hyfforddwyr a'u gallu i ddarparu rhywun yn eu lle pan nad ydyn nhw ar gael yn annisgwyl. | | | |
| | Cyflogi hyfforddwr(wyr) ar draws y dalaith. | | | |
| | Ystyried cyfleoedd 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' | | | |
| | Ystyried hyfforddwyr gwirfoddol wedi'u dilysu ar draws y dalaith. | | | |
| | Parhau i ddatblygu a chynnwys cyrsiau Uwch h.y. Cam-drin Domestig a Cham-drin Ysbrydol. | | | |
| | Sicrhau bod materion hygyrchedd yn cael eu hystyried ar gyfer y rhai sy'n mynychu hyfforddiant ac sydd â nam corfforol, meddyliol, gweledol neu glyw. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Safon 7** | Hyrwyddo diogelu yn gadarnhaol ar lefel esgobaeth a rôl MASOs | | | |
| | Creu cyfleoedd cymorth gan gymheiriaid ar gyfer MASO yn eu hardaloedd esgobaethol. | | | |
| | Anfon cylchlythyr yn rheolaidd at MASOs i'w hannog gyda gwybodaeth i'w throsglwyddo i'r plwyfi, gan gynnwys materion allweddol fel asesiadau risg, gweithio gydag oedolion agored i niwed a risgiau y gellir eu nodi | | | |
| | Cynnig hyfforddiant Pobl fy Eglwys i bawb sydd ei angen gyda chanllawiau clir ar yr hyn y disgwylir iddynt ei adolygu a'i ddal | | | |
| | Sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn unol ag argymhellion y Fframwaith Safonau Hyfforddiant Cenedlaethol. | | | |
| **Safon 9** | Gwybodaeth i'w darparu ar **bob** gwefan esgobaethol sy'n rhoi gwybodaeth am wasanaethau cymorth i oroeswyr a'r rhai mewn angen. | | | |
| | | | | |

| **Cwblhawyd gan:** | **Adrodd i:** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| | | / / |